Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar nos Fercher y 12fed o Hydref 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.20yh.

Presennol : Y Maer y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Colin Jenkins (Cadeirydd), y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. David Williams
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christopher Parish

Cof 181/ Hyd / 11 Cyfrifon i'w Talu.

Yswiriant Zurich (Adnewyddu Yswiriant Blynyddol)	£ 3,554.38
Ar y Gair (Cyfieithu)	£ 156.60
LITE (newidydd ar gyfer goleuadau'r Nadolig)	£ 186.00
Westward Energy Services Ltd (cynnal a chadw'r boeler)	£ 180.00
Charles B Sams Electrical	£ 61.32
Morgan & Morgan (cetris inc)	£ 54.79
Morgan & Morgan (blychau storio ac offer ysgrifennu)	£ 37.13
Des Davies (treuliau teithio)	£ 16.40
Talwyd pob un o'r rhain trwy BACS	
Brecwast yng Ngwesty'r Cawdor (gwirfoddolwyr profi pwyntiau angori)	£ 50.00- siec
Treuliau'r Clerc (cebl i'r cyfrifiadur a gwrth-firws Norton)	£ 104.32- siec

Argymhellwyd bod yr uchod yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 182/ Hyd / 11 Incwm a dderbyniwyd ym mis Medi 2011

Rhent Chwarterol Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed	£ 3,140.75
Arian parod / Sieciau (Cinio'r Maer)	£ 550.00
Taflenni hysbysebu'r Tân Gwyllt	£ 1,700.00
Llog y Banc	£ 7.73

Cof 183/ Hyd / 11 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 11.10.11)	£ 24,361.58
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 11.10.11)	£ 10,517.81
Cyfrif Maer CTLl (fel ar 18.9.11)	£ 2,119.94
Bond Adnau Llog Uchel CTLl	£ 20,000.00

Cof 184/ Hyd / 11 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad Chwarterol ar Sieciau hyd at ddiwedd mis Medi

Darparodd y Cadeirydd, y Cyng. Colin Jenkins, adroddiad. Cafodd pum siec eu harchwilio a dangoswyd bod holl fanylion y rhai a dalwyd, rhifau'r sieciau a rhifau'r cofnodion yn gywir.

Cafwyd cais gan y Cyng. Jenkins i'r taliadau i gyd i gael eu marcio'n glir p'un ai eu bod wedi cael eu talu trwy Bacs neu siec. Dylai pob taliad Bacs ddangos rhif unigol at ddibenion cyfeirio'r banc

2. Adroddiad y Gyllideb hyd at ddiwedd mis Medi
   Paratôdd y Swyddog Cyllid adroddiad ar y gyllideb hyd yn hyn. Cytunwyd y byddai Mr Plummer yn cysylltu ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, i drafod archeb sefydlog ar gyfer y rhent.
3. Rhagolwg Cyllideb Tair Blynedd.
   Penderfynwyd gohirio unrhyw newidiadau nes cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd.
4. Gŵyl y Synhwyrau.
   Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod £750 yn cael ei roddi i'r Ŵyl eleni, o gyllideb goleuadau'r Nadolig, i ddigolledi'r Ŵyl am golli eu harian grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd pawb o blaid.
5. Cafwyd cais gan y Clerc bod siec o £21 yn cael ei anfon i CSG gyda chais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar gyfer y digwyddiad cynnau goleuadau'r Nadolig. Roedd pawb o blaid.
6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol
   i) Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr – Band B – Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy £50 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. David Williams.
   Cynigwyd diwygiad i £30 gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones. Cafodd y cynnig ei gario gan 4 pleidlais i 2
   ii) Canolfan Therapi Bobath - Band B - Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy £50 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater.
   iii) NSPCC – Band A - Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy £50 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roy Davies.
   iv) Cymorth i Ddioddefwyr Cymru – Band A – Cynigodd y Cyng. Edward Thomas £50 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy.
   v) Ambiwlans Sant Ioan Apêl Llandeilo – Band C – Cynigodd y Cyng. Edward Thomas £150 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones.
   vi) Clwb Criced Llandeilo – Band B – Cynigodd y Cyng. Julia Jones £200 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy.
   Byddai'r Clerc yn gwahodd y derbynyddion i gyflwyniad ar y 26ain o Hydref am 7yh.
7. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod rhodd o £50 yn cael ei roi i deuluoedd y rhai a fu farw yn y trychineb diweddar ym Mhwll y Gleision. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid

Cof 185 / Hyd /11 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid.

Roxeane Tracey, Swyddog Grantiau CSG – Hysbysiad am sioe grantiau deithiol yn Swyddfeydd Heol Cilgant ar ddydd Gwener y 14eg o Hydref. Nodwyd.

Cof 186 / Hyd /11 Goblygiadau Ariannol Adroddiad y Swyddog Technegol.

Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y Swyddog Technegol yn cael caniatâd i gael gwaith wedi'i wneud i amnewid y plwm uwchben y ffenest ffrynt yn Neuadd y Sir, ar yr un pryd ag y byddai sgaffaldau yn eu lle i newid y ffenest, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 187/ Hyd /11 Eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dywedodd y Cyng. Ros Bellamy y byddai rhaglenni'r digwyddiad Tân Gwyllt ar gael er mwyn i'r Cynghorwyr eu dosbarthu o amgylch y Dref ar y 29ain o Hydref 2011.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20yh.